This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

2017/18

# Adroddiad Gorfodi Parcio a Thraffig Blynyddol Cyngor Caerdydd



# MYNEGAI


1 Cyflwyniad a chyd-destun

2 Trosolwg

Diben rheoliadau parcio a pham eu bod yn cael eu gorfodi

Diben y ddogfen hon

Parcio yng Nghaerdydd

Parcio i breswylwyr

Parcio i Bobl Anabl

Parcio i Feiciau Modur

Clybiau ceir

Parcio i Feiciau

Gorfodi parcio

Gwaharddiadau

Y broses apelio

3 Yr hyn sy'n newydd

Newidiadau i drefniadau parcio

Adolygu costau parcio

Apeliadau Parcio

Y weithdrefn apeliadau trwyddedau

Talu dros y ffôn

Eich helpu i barcio

Cerbydau trydan

4 Cynlluniau'r dyfodol

Caffael a chontractau

5 Ystadegau, gwybodaeth ariannol, adolygiadau a monitro

Ystadegau ariannol

*Incwm a gwariant parcio*

*Defnyddio'r hyn sy'n weddill*

Taliadau cosb

Talu Hysbysiadau Tâl Cosb

Cyfradd adennill HTC

Ystadegau perfformiad

Ystadegau blynyddol ar ddiogelwch swyddogion gorfodi sifil

## 1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Yn haf 2010, cymerodd Cyngor Caerdydd y cyfrifoldeb dros orfodi amrywiaeth o dramgwyddau parcio. Mae hyn yn cyfrannu tuag at amcanion y polisi trafnidiaeth drwy ymdrin â pharcio anghyfreithiol sy’n achosi tagfeydd diangen ac oedi o ran traffig. Yn 2013, gwnaed deddfwriaeth newydd yng Nghymru i ganiatáu i awdurdodau lleol orfodi lonydd bysus, cyffyrdd blychau melyn ac ystod o dramgwyddau traffig sy’n symud eraill.

Yn 2014, cafodd Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 eu pasio gan ddod i rym ar 25 Mawrth 2014. Mae’r rheoliadau hyn yn galluogi’r Cyngor i gymryd y cyfrifoldeb dros orfodi troseddau lonydd bysus a rhai troseddau traffig sy’n symud, yn unol â Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004.

Drwy gael mynediad i’r pwerau hyn, mae gan Gyngor Caerdydd bellach ystod lawn o bwerau cyfreithiol i reoli parcio a theithio ar hyd y briffordd. Mae hyn yn rhoi rheolaeth lawn i’r Cyngor o ran defnyddio ei adnoddau gorfodi i gefnogi ei bolisïau trafnidiaeth, gyda’r bwriad o helpu â symudiad trafnidiaeth gyhoeddus a chadw traffig i symud yn gyffredinol.

## 2. TROSOLWG

Mae’r adroddiad blynyddol yn nodi’r ffeithiau a'r ffigurau pwysig mewn perthynas â gweithgareddau parcio a gorfodi Cyngor Caerdydd.

Gall parcio anghyfreithlon greu problemau gyda gweithredu'r rhwydwaith priffyrdd gan gynnwys effeithio ar allu trafnidiaeth gyhoeddus i redeg yn esmwyth ac ar bobl o ran gallu defnyddio ‘dulliau actif’ fel cerdded a beicio’n ddiogel ac yn hyderus. Mae’n effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr ffyrdd eraill, ac yn achosi niwsans i breswylwyr a busnesau lleol. Gall parcio anghyfreithlon effeithio ar fwynhad a chyfleuster ardaloedd lleol gan effeithio'n negyddol arnynt fel llefydd da i fyw a gweithio ynddynt.

Felly mae angen gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus yn gweithio, gan fynd i’r afael â pheryglon i ddefnyddwyr ffyrdd eraill oherwydd parcio anghyfreithlon a sicrhau bod mannau parcio yn cael eu defnyddio ar gyfer parcio ac nid at ddibenion eraill e.e. ar gyfer masnachu anghyfreithlon.

Mae’r Cyngor yn derbyn parcio ar y briffordd yn unol â dwy ystyriaeth bwysig:

- Nad effeithir ar ddiogelwch; a
- Nad effeithir ar lif traffig.

Mae'r Ddeddf Rheoli Traffig yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor fel awdurdod priffyrdd i sicrhau llif traffig esmwyth. Er y mae’n ymddangos bod digon o le i barcio ar ffyrdd, gall y Cyngor benderfynu nad yw'n diwallu gofynion y Ddeddf gan felly benderfynu bod angen gorfodi parcio. Mae'r polisïau a’r meini prawf gweithredol canlynol yn llunio'r gwaith beunyddiol o reoli mannau parcio. Dylai’r polisïau hyn gael eu darllen yn unol â

- Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor,

- Canllawiau Cynllunio Atodol (Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth – Ymgorffori Safonau a Chanllawiau Parcio ar Gynlluniau Teithio),
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol a
- Strategaeth Parcio

Mae amcanion Polisïau Parcio'r Cygnor yn alinio ag amcanion Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cyngor Caerdydd, fel a ganlyn:

- **Amgylchedd** – Caiff parcio ei ddarparu a'i reoli i leihau effeithiau negyddol teithio a pharcio ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol.
- **Yr Economi** – I gyfrannu at economi effeithlon, i gefnogi twf economaidd cynaliadwy mewn lleoliadau priodol a hyrwyddo bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol y ddinas, ardaloedd a chanolfannau lleol
- **Diogelwch** – Caiff parcio ei ddarparu a'i reoli i hyrwyddo diogelwch i bob teithiwr.
- **Hygyrchedd** - Caiff parcio ei ddarparu a'i reoli i hyrwyddo hygyrchedd i bobl a nwyddau, yn enwedig, trwy ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy. Rhoddir sylw penodol i wella hygyrchedd i bobl â phroblemau symudedd.
- **Integreiddio** - I integreiddio parcio â phob math o drafnidiaeth, rheoli rhwydwaith a chynllunio defnydd tir, gan arwain at system trafnidiaeth well, gynaliadwy a mwy effeithlon.

Rhagor o wybodaeth:

Strategaeth Parcio Caerdydd: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/parcio/Strategaeth-Parcio/Pages/default.aspx

Cynllun Trafnidiaeth Lleol: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Parking-roads-and-travel/transport-projects/Documents/FINALLTP.pdf

## PARCIO YNG NGHAERDYDD

Mae gan Gaerdydd amrywiaeth o gymdogaethau a phob un â'i nodweddion eu hunain. Mae problemau parcio unigol yn deillio o'u lleoliad, cymysgedd o ddefnyddiau tir, a chyfleusterau trafnidiaeth.

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu nifer o wahanol fathau o barcio ar hyd a lled y ddinas gan gynnwys ar adnoddau ar y stryd ac oddi ar y stryd. Mae hyn yn cynnwys dros

- 2,000 o fannau mewn meysydd parcio oddi ar y stryd,
- 2,500 o fannau talu ac arddangos ar y stryd, a
- thua 1000 o fannau yng nghyfleuster Parcio a Theithio Dwyrain Caerdydd.

Yn yr un modd â threfi a dinasoedd eraill, darperir parcio trwy gyfuniad o gyfleusterau a weithredir gan y Cyngor a'r rheiny a weithredir gan gwmnïau preifat.

Tudalennau Parcio Cyngor Caerdydd: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/parcio/Pages/default.aspx

## PARCIO I BRESWYLWYR

Rheolir parcio mewn mannau preswyl gan gynllun parcio i breswylwyr y Cyngor a'i bolisïau ategol. Mae cynlluniau parcio i breswylwyr yn unig yn tueddu i ganolbwyntio ar strydoedd â thai teras sy’n agos at ganol y ddinas.

Mae polisi Parcio i Breswylwyr cyfredol y Cyngor yn nodi'r meini prawf cymhwyster clir a ddefnyddir wrth benderfynu p’un a ddylid cyflwyno neu newid cynlluniau parcio i breswylwyr mewn ardal neu beidio. Datblygwyd y polisi cyfredol yn dilyn adolygiad o'r polisi parcio i breswylwyr blaenorol yng Nghaerdydd a gynhaliwyd yn 2011.

Mae gan nifer o ardaloedd preswyl sy’n agos at ganolfannau siopa ardaloedd a chanol y ddinas gynlluniau trwyddedau i breswylwyr mewn lle fel ffordd o leihau problemau y gall parcio gan gymudwyr a siopwyr ei achosi i breswylwyr lleol. Gall y meini prawf ar gyfer yr ardaloedd hyn gael eu haddasu yn y dyfodol mewn ymateb i newidiadau mewn pwysau parcio sy’n codi o ddatblygiadau newydd neu newidiadau mewn llifoedd a phatrymau traffig.

Cydnabyddir y gall unrhyw ymyriadau yn gysylltiedig â pharcio effeithio o bosibl ar strydoedd gerllaw. Am y rheswm hwn, wrth bennu pob cais ar gyfer cynllun parcio i breswylwyr, mae angen ystyried yn ofalus y dystiolaeth o ddata arolygon ac adborth o ymgynghoriadau cyhoeddus.

Mae systemau parcio i breswylwyr yn unig yn gweithredu ar strydoedd lle mae galw uchel am fannau parcio ar y stryd, gan breswylwyr a defnyddwyr eraill e.e. cymudwyr a siopwyr. Mae’r system yn weithredol bob dydd, rhwng 8.00am a 10.00pm.

## PARCIO I BOBL ANABL

Caiff mannau parcio unigol i bobl anabl eu gweithredu ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas, y tu allan i’w cartrefi lle:

(i) nid oes unrhyw fannau parcio oddi ar y stryd ar gael ar safle'r ymgeisydd, p'un a yw'n cael ei ddefnyddio neu beidio;

(ii) mae parcio ar y stryd mor drwm nid oes mannau parcio ar gael o fewn 25m o gyfeiriad yr ymgeisydd.

Rhagor o wybodaeth: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Trefniadau-parcior-Bathodyn-Glas/Pages/default.aspx

## PARCIO I FEICIAU MODUR


Nid yw beiciau modur yn gallu defnyddio cyfleusterau beiciau yn gyfreithlon, ond ar hyn o bryd gellir eu parcio am ddim mewn:

- mannau talu ac arddangos arferol ar y stryd (yn unol â’r uchafswm amser aros a ganiateir yn y mannau arhosiad hir neu fyr)
- Meysydd parcio talu ac arddangos y Cyngor yn Castle Mews, Heol y Gogledd a Stryd Fawr Llandaf a
- mannau beiciau modur diogel ym maes parcio Gray Street yng Nglan-yr-afon.

Cafodd mynediad i lonydd bysus ei brofi yn ystod 2015 a bydd yn parhau am y dyfodol hyd y gellir ei ragweld.

Rhagor o wybodaeth: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/parcio/Parcio-i-feiciau-modur/Pages/Parcio-i-feiciau-modur.aspx

## CLYBIAU CEIR




Gosodwyd Clwb Ceir yng Nghaerdydd fel rhan o Broject Dinas Deithio Gynaliadwy yn 2010. Mae Clybiau Ceir yn galluogi pobl i wneud defnydd o gerbydau pan fo angen yn hytrach na chynnal a chadw cerbyd personol. Caiff cerbydau Clwb Ceir eu parcio mewn mannau ymroddedig ar y stryd gan felly gael gwared ar yr angen i chwilio am fan parcio. Mae dewisiadau llogi tymor byr a hir ar gael.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i annog datblygiad clybiau ceir, ar y stryd ac mewn datblygiadau newydd. Yn y ffordd hon gellir lleihau nifer y cerbydau sy'n ceisio parcio mewn ardaloedd â dim digon o lefydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod aelodau clwb ceir yn gwneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio na phobl sy'n berchen ar eu cerbyd eu hunain.

Rhagor o wybodaeth:

https://www.enterprisecarclub.co.uk/gb/en/programs/regions/wales/cardiff.html

https://www.carplus.org.uk/

## PARCIO I FEICIAU



Mae beicio yn ddull trafnidiaeth holl bwysig ar gyfer teithiau lleol byr ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio'n aml ar gyfer teithiau aml-ddull, yn enwedig trên. Mae mannau parcio beiciau diogel o safon uchel yn allweddol i annog mwy o bobl i ddefnyddio beic ar gyfer rhan o'u taith neu'r daith gyfan. Mae gan Gyngor Caerdydd raglen i osod standiau beiciau ychwanegol ledled y ddinas ac mae ganddo safonau ar gyfer gosod mannau parcio ar gyfer datblygiadau newydd. Caiff hwn ei ategu gan gynllun i ddarparu standiau beiciau am ddim i sefydliadau ar gyfer defnydd cyflogeion ac ymwelwyr.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd ar gyfer dulliau actif trwy ymyriadau i wella diogelwch ac atyniad cerdded a beicio yn y ddinas. I'r perwyl hwn mae'n cynllunio gosod hyb beicio newydd fel rhan o'r gwaith o ail-ddatblygu'r Sgwâr Canolog i gynnwys cyfnewidfa trafnidiaeth newydd ar gyfer y ddinas.

Ym Mawrth 2018 cafodd 50 beic cyntaf cynllun llogi beiciau ar y stryd newydd ar gyfer y ddinas eu lansio cyn i'r cynllun 500 beic gael ei gyflwyno yn ystod haf 2018.

Caiff y cynllun ei weithredu gan nextbike (UK) Ltd, drwy weithio mewn partneriaeth â Pedal Power a chafodd ei ariannu gan grant cyfalaf o £800,000 gan Lywodraeth Cymru. Noddwr lleol y cynllun yw Prifysgol Caerdydd a gall ei phoblogaeth myfyrwyr elwa o orsafoedd llogi mewn campysau prifysgol allweddol ledled y ddinas, yn ogystal â'r rhwydwaith ehangach.





Rhagor o wybodaeth:

http://www.keepingcardiffmoving.co.uk/cy/?lang=cy&redirect_to=http%3A%2F%2Fwww.keepingcardiffmoving.co.uk%2Fcycle%2F

https://www.nextbike.co.uk/cy/cardiff/

## GORFODI PARCIO A THRAFFIG

Mae timau symudol o Swyddogion Gorfodi Sifil (SGS) Cyngor Caerdydd yn cynnig gwasanaeth ymatebol i ddelio â phroblemau parcio ar y priffyrdd neu dir sy'n berchen i'r Cyngor. Mae rôl SGS yn un pwysig o ran sicrhau bod y stryd yn parhau'n hygyrch, a bod pobl yn parcio ar strydoedd y ddinas mewn modd cyfreithiol a diogel. Mae gan SGS hefyd fantais unigryw o fod 'ar y stryd' a gallant felly fod yn genhadon pwysig o ran darparu gwasanaeth parcio effeithlon yn y ddinas, gan weithio ochr yn ochr â thechnoleg i ddarparu gwasanaeth parcio o safon uchel i breswylwyr a phobl sy'n ymweld â'r ddinas.



Cafodd Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 eu pasio gan ddod i rym ar 25 Mawrth 2013. Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi'r Cyngor i gymryd y cyfrifoldeb dros orfodi troseddau lonydd bysus a rhai troseddau traffig sy'n symud (TTS), yn unol â Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004. Mae Deddf Rheoli Traffig 2004 yn nodi'r ystod o arwyddion ffyrdd a fydd yn cael eu gorfodi dan y ddeddfwriaeth newydd hon.

Mae'r rhain yn cynnwys gorfodi:

- Symudiadau wedi'u cyfarwyddo a'u gwahardd
- Ardaloedd cerddwyr
- Darpariaethau Bysus a Beiciau a
- Chyffyrdd Blychau Melyn.

Mae'r pwerau hyn yn cynorthwyo â:

- Gorfodi Lonydd Bysus – gan atal blocio lonydd bysus.
- Gorfodi Cyffyrdd Blychau Melyn - gan leihau ciwio anghyfreithlon ar draws y blychau, yn enwedig yn ystod oriau brig, gan atal tagfeydd ac oedi i bob cerbyd.
- Gorfodi gwaharddiadau symudiadau troi - gan wella diogelwch y cyhoedd, drwy atal gwrthdaro â symudiadau croesi cerddwyr, a thrwy leihau'r defnydd o bontydd gwan gan lorïau sy'n anwybyddu cyfyngiadau pwysau.

Mae rhagor o fanylion ar y cynllun Gorfodi Parcio Sifil a'r costau sy'n gysylltiedig â throseddau parcio ar gael ar Wefan y Cyngor neu drwy ymweld â:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/parcio/Pages/default.aspx

## CAR CAMERA

Yn 2016 cyflwynodd Cyngor Caerdydd declyn ychwanegol i'w ystod o declynnau gorfodi sifil trwy gyflwyno technoleg car camera.





Mae'r cynllun hwn yn darparu dau gerbyd sy'n defnyddio technoleg adnabod rhifau cofrestru gan alluogi'r Cyngor i anfon tocynnau parcio'n uniongyrchol i gartref gyrrwr.

Caiff ceir eu gosod â system teledu cylch cyfyng ar y to a thechnoleg Adnabod Rhifau Cofrestru Awtomatig ac maen nhw'n cael eu gweithredu 7 diwrnod yr wythnos rhwng 7am a 10pm. Rhoddir pwyslais ar barcio anghyfreithlon o gwmpas ysgolion er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd a newid arferion gyrru yng Nghaerdydd.

Cafodd modurwyr a arsylwyd gan y car camera yn parcio ar ardaloedd igam-ogam ger ysgolion, gan ddefnyddio lonydd bysus yn anghyfreithlon neu eu dal yn aros mewn ardaloedd cyfyngedig eu cyflwyno â hysbysiadau rhybudd yn ystod pythefnos gyntaf y cynllun i alluogi modurwyr arfer â phresenoldeb technoleg newydd. Caiff Hysbysiadau Tâl Cosb eu cyflwyno i droseddwyr nawr.

## CAMERÂU LONYDD BYSUS



Cafodd camerâu lonydd bysus eu cyflwyno'n wreiddiol yn y ddinas yn 2014 a'u gosod mewn saith lleoliad. Mae'r camerâu hyn wedi'u dylunio i atgoffa modurwyr y dylai lonydd bysus ond gael eu defnyddio gan gerbydau sydd â chaniatâd i wneud hynny. Mae hyn yn sicrhau bod y gwasanaethau bysus yn rhedeg yn effeithlon ac ar amser, gan gynnig dull amgen deniadol i deithio mewn car.

Caiff 6 chamera hefyd eu gosod mewn lleoliadau ychwanegol o gwmpas yr awdurdod dros y flwyddyn nesaf.

## TROEON WEDI'U GWAHARDD A CHYFFYRDD BLYCHAU MELYN

Mae camerâu ychwanegol wedi'u gosod yng nghanol y ddinas gan orfodi troeon sydd wedi'u gwahardd i helpu i hyrwyddo diogelwch i ddefnyddwyr ffyrdd agored i niwed yn arbennig a chynorthwyo ag atal damweiniau sy'n deillio o fodurwyr yn anwybyddu'r symudiadau wedi'u gwahardd. Bydd y camerâu hyn ynghyd â chamerâu blychau melyn ychwanegol yn galluogi'r ddinas i barhau i symud yn effeithlon. Bydd rhagor o gamerâu sy'n gorfodi troeon wedi'u gwahardd a blychau melyn yn cael eu cyflwyno yn y Mynydd Bychan, Treganna, Caerau ac Adamsdown.



Llun: Wales Online

## DIOGELWCH SWYDDOGION GORFODI SIFIL

Mae Cyngor Caerdydd yn ystyried diogelwch ei Dîm Gorfodi Sifil yn flaenoriaeth. I'r perwyl hwn, ac yn unol â nifer o awdurdodau eraill mae Caerdydd wedi cyflwyno camerâu corff fel rhan o'r dechnoleg i gefnogi Swyddogion Gorfodi Sifil gyda'u dyletswyddau.

O Orffennaf 2016 cafodd Swyddogion Gorfodi Sifil (SGS) gamerâu corff trwy fuddsoddiad o £34k gan Gyngor Dinas Caerdydd. Caiff y camerâu eu rhoi ar glip sydd wedi'i atodi i wisg y SGS a bydd yn recordio ongl 130° gyda fideo a sain mewn manylder uwch a bydd unigolyn yn gallu gweld y recordiad ar sgrin sy'n wynebu'r blaen ar adeg y digwyddiad.

Ystyrir y dechnoleg fel tyst annibynnol i ddigwyddiadau, a chaiff camerâu ond eu defnyddio os yw SGS yn credu eu bod yn cael eu bygwth neu fod posibiliad o wrthdaro. Caiff SGS eu hyfforddi i roi gwybod i aelodau'r cyhoedd pan fydd yr offer yn cael ei actifadu.

Nod Cyngor Caerdydd yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn preifatrwydd pobl ac amddiffyn iechyd a diogelwch SGS tra'n casglu tystiolaeth hanfodol y gellir ei defnyddio os bydd digwyddiad yn gwaethygu.

Gall cael mynediad i ddata a gesglir trwy feddalwedd cyfrifiadur penodol yn unig ac fe'i cedwir yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data.

## Y BROSES APELIO

Gellir apelio yn erbyn ffioedd parcio cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd y tocyn a gellir eu herio am y rhesymau canlynol:

- Ni ddigwyddodd y drosedd parcio honedig
- Nid oedd y cerbyd byth yn berchen i'r apelydd; roedd yr apelydd wedi stopio bod yn berchen ar y cerbyd cyn y drosedd parcio honedig; neu daethant yn berchen ar y cerbyd ar ôl dyddiad y drosedd parcio honedig
- Cafodd y cerbyd ei barcio gan rywun arall heb ganiatâd y perchennog (e.e. os cafodd ei ddwyn)
- Cafodd y cerbyd ei yrru gan rywun arall dan drefniant llogi (mae hwn at ddefnydd cwmnïau llogi ceir yn unig)
- Roedd y gosb yn fwy na'r swm sy'n berthnasol i'r math o drosedd a ddyfynnwyd
- Nid yw'r Cyngor wedi dilyn y weithdrefn gywir
- Nid oedd y cyfyngiad parcio lle digwyddodd y drosedd parcio honedig yn ddilys

Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn ystyried amgylchiadau lliniarol eraill fesul achos.

Rhagor o wybodaeth: https://www.councilparking.org/cardiff/cym/pages/home.aspx

## 3. TECHNOLEG


Dros amser, ac o ganlyniad i newidiadau o ran galw mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu trefniadau ar gyfer rheoli parcio.  Mae hyn yn golygu y gall y Cyngor sicrhau bod parcio yn cael ei reoli'n effeithiol er budd pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y ddinas drwy hyrwyddo economi cryf a chynnal amgylchedd gwell.


### PEIRIANNAU TALU AC ARDDANGOS

Mae gwaith ar y gweill i ddisodli'r stoc cyfleusterau taliadau cerdyn 'sglodyn a phin' cyfredol gyda chyfleusterau 'chwifio a thalu' digyswllt. Mae hyn wedi galluogi pobl i dalu'n gynt heb fod angen cael cysylltiad ffôn symudol gyda banc ar yr adeg y mae angen talu. Bydd y dechnoleg hon yn ceisio gwella dibynadwyedd taliadau a gwella'r profiad i gwsmeriaid, a lleihau'r risg o ladrata o beiriannau.

Disgwylir y bydd peiriannau T&A yn parhau i dderbyn arian a chardiau yn y ffordd gyfredol yn ogystal â chynnig dewisiadau digyswllt i gwsmeriaid. Caiff y peiriannau newydd eu cefnogi gan ddatblygiadau mewn technoleg talu dros y ffôn.

### TALU DROS Y FFÔN / APP




Mae dulliau taliadau digyswllt yn cynnwys talu dros ffôn symudol a ddefnyddir yn amlach wrth i dechnoleg ffonau symudol ddatblygu ac wrth i ffonau clyfar ddod yn fwy cyffredin.

Mae manteision yn cynnwys cael gwared ar yr angen i gario arian i dalu am barcio ar y stryd, a thros amser bydd y risg o ladrata o beiriannau Talu ac Arddangos o amgylch y ddinas yn lleihau. Mae Caerdydd wedi gweld gostyngiad o 39% mewn taliadau arian ers i MiPermit gael ei gyflwyno yng Nghaerdydd.

Gall y dechnoleg hefyd ddarparu ar gyfer cyflwyno negeseuon atgoffa drwy negeseuon testun i roi gwybod bod cyfnod yn dod i ben cyn bo hir er mwyn gallu ymestyn yr amser parcio o bell hyd at yr uchafswm amser a ganiateir.

Mae'r App MIPermit dwyieithog hefyd yn rhoi'r opsiwn i bobl sy'n gyrru i mewn i Gaerdydd ddod o hyd i dariff parcio ymlaen llaw, talu cyn parcio, ac ymestyn sesiwn parcio heb orfod dychwelyd i'r car.


Gellir lawrlwytho'r ap trwy ffôn clyfar (apple ac android) neu drwy ddefnyddio'r porthol ar-lein yn www.wanttopark.com/cardiff <http://www.wanttopark.com/cardiff>.

I gwsmeriaid newydd mae'r gwasanaeth hwn ar gael drwy decstio'r gair PARK a manylion cofrestru'r cerbyd i 61600. Bydd y cwmni yn ffonio'r cwsmer yn ôl i gael manylion lleoliad a thalu. Mae'r system hefyd yn galluogi pobl i gofrestru i wasanaeth neges destun – a fydd yn rhoi gwybod pan fydd y ddarpariaeth parcio yn dod i ben.

Rhagor o wybodaeth: https://secure.mipermit.com/cardiff/application/home.aspx

## CYNLLUN PARCIO SYNHWYRAIDD

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio technoleg arloesol i ddarparu gwelliannau gwasanaeth o ran rheoli parcio yn y ddinas, a gweithredu system a fydd yn gallu cael ei defnyddio ar gyfer nifer o swyddogaethau. (E.e. casglu data i hwyluso monitro a chynllunio trafnidiaeth ac ati). Mae datrysiad synhwyraidd parcio'r Cyngor yn defnyddio synwyryddion ar ffyrdd cerbydau sy'n cofrestru symudiadau cerbydau ac yn cyfathrebu â chanolfan y swyddfa gefn mewn amser real.




Llun: Smart Parking Ltd

Mae'r dechnoleg parcio synhwyraidd hefyd yn rhoi mynediad i gwsmeriaid i ap ffôn symudol am ddim trwy ddyfeisiau iPhone ac Android i gwsmeriaid gael darlun cyfredol o fannau parcio. Mae'r system yn galluogi Cyngor Caerdydd i gasglu data amser real o ran lefelau defnydd mewn cyfleusterau parcio oddi ar y stryd gerllaw, ac yn y dyfodol bydd yn galluogi'r Cyngor i fireinio prisiau parcio i sicrhau defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

Bydd y system yn gallu cydlynu dyfeisiau llaw SGS, cyfleusterau taliadau di-arian, a pheiriannau taliadau ar y stryd. Mae hyn yn galluogi Cyngor Caerdydd i ddefnyddio system llenwi mannau parcio, refeniw a gorfodi cwbl integredig a fydd yn caniatáu gweithgareddau Gorfodi Parcio a arweinir gan ddata, a lleoli adnoddau GSG uniongyrchol mewn meysydd sydd angen y gefnogaeth fwyaf. Bydd hyn yn cynorthwyo â gwella effeithlonrwydd y system GSG, a hyrwyddo trosiant gwell o fannau parcio yn y ddinas, a fydd o fudd i'r economi leol.



Llun: Smart Parking Ltd.


Rhagor o wybodaeth: http://www.keepingcardiffmoving.co.uk/car/parking-sensors/

## TRWYDDEDAU AR-LEIN

Gellir nawr ymgeisio am drwyddedau parcio ar-lein trwy wefan y Cyngor. I brynu trwydded parcio i breswylwyr neu ymwelwyr rhaid i ymgeisydd ddarparu:

- Rhif cofrestru’r cerbyd (trwyddedau i breswylwyr yn unig)
- Cerdyn credyd neu ddebyd dilys
- Rhif cyfrif Treth Gyngor fel prawf o breswylfa.
- Efallai bydd angen darparu prawf o breswylfa ychwanegol os gofynnir am hynny

Gall preswylwyr dal ymgeisio am drwyddedau drwy'r post.




Rhagor o wybodaeth: [https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Trwyddedau-parcio/Pages/Trwyddedau-parcio.aspx](https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Trwyddedau-parcio/Pages/Trwyddedau-parcio.aspx)

# 4. CYNLLUNIAU’R DYFODOL

## E-DRWYDDEDAU

Mae gwaith wedi dechrau i edrych ar pa mor ymarferol yw disodli trwyddedau parcio papur â system E-drwydded newydd. Byddai hyn yn golygu y byddai modurwyr yn cofrestru eu cerbydau ar gyfer trwydded rhithwir yn hytrach na gorfod arddangos trwydded gorfforol yn eu cerbydau. Byddai hyn yn rhoi manteision i ddeiliaid trwyddedau oherwydd, yn wahanol i drwydded papur, ni ellir colli, dwyn neu anghofio E-drwydded.  Byddai’r dechnoleg hon yn galluogi Cyngor Caerdydd i reoli'r system drwyddedau yn fwy effeithlon, yn enwedig mewn ardaloedd parcio i breswylwyr, a hwyluso newidiadau i gyfeiriad neu gerbydau'n haws nag ydyw nawr.

Mae sylw arbennig yn cael ei roi i sut y gellid integreiddio'r drwydded ymwelwyr gyfredol yn y system E-drwydded tra'n sicrhau ei bod yn hawdd i'w defnyddio ac yn hygyrch i'r holl breswylwyr.

Byddai gorfodi yn cael ei wneud trwy ddefnyddio Fflyd Ceir Camera'r Cyngor, a fyddai’n defnyddio'r dechnoleg ANPR a osodwyd i rybuddio timau gorfodi pan fo cerbyd heb ei gofrestru wedi’i barcio mewn ardaloedd deiliaid trwyddedau. Byddai hyn yn golygu y byddai gorfodi yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Disgwylir y byddai hyn yn cynorthwyo â chynnal manteision cynllun parcio i breswylwyr y Cyngor ac yn annog gyrwyr rhag parcio mewn mannau a gadwyd i breswylwyr. Mae’r gwaith hwn yn y cam datblygu cynnar a darperir mwy o wybodaeth cyn bo hir.

## YMESTYN GALLU GORFODI

Bydd Cyngor Caerdydd yn parhau i edrych ar y posibiliad o ymestyn gallu gorfodi ymhellach i helpu i ymdrin â'r prif ardaloedd problemus yn y ddinas. Mae'r rhain yn cynnwys gallu gorfodi ychwanegol ar gyfer symudiadau troi wedi'u gwahardd a lonydd bysus. Bydd Cyngor Caerdydd hefyd yn edrych ar dechnoleg arall pan fydd ar gael.

# 5. YSTADEGAU, GWYBODAETH ARIANNOL, ADOLYGIADAU A MONITRO

## CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod incwm o gostau sy'n gysylltiedig â gorfodi traffig yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Mae tair prif ffynhonnell incwm sydd wedi'u nodi isod.

a) **Incwm o Gostau Parcio –** yn cynnwys incwm Talu Ac Arddangos o gynlluniau parcio ar ac oddi ar y stryd a phreswyl.
b) **Incwm o Orfodi Parcio Sifil (GSG)** - sy'n adlewyrchu incwm o droseddau parcio.
c) **Incwm o Droseddau Traffig sy'n Symud (TTS) -** sy'n adlewyrchu gorfodi lonydd bysus, cyffyrdd blychau melyn a gwaharddiadau symudiadau troi.

Mae Gorfodi Sifil yn gyfrif wedi'i chlustnodi a defnyddir unrhyw incwm a gynhyrchir i ariannu costau gweithredol parcio a gorfodi. Caiff unrhyw weddill neu ddiffyg ychwanegol a gynhyrchir gan y cyfrif ei drosglwyddo i'r Gronfa Parcio a gellir ond ei ddefnyddio at ddibenion penodol megis cefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gwelliannau priffyrdd a pharcio oddi ar y stryd yn unol ag Adran 55 Deddf Rheoliadau Ffyrdd 1984, yn unol â Rheoliadau Tramgwyddau Gorfodi Sifil ar Draffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

Mae'r Gronfa Parcio wedi cefnogi nifer o welliannau gan gynnwys:

- Uwchraddio Meysydd Parcio, gan gynnwys cyfleusterau Talu ac Arddangos
- Gosod Mannau i Bobl Anabl
- Gwaith sy'n ofynnol i weithredu Troseddau Traffig sy'n Symud
- Gwaith ar ardaloedd cyfyngiad 20mya newydd yng Nghyngor Dinas Caerdydd
- Parthau cadwch yn glir mewn ysgolion a mynediad diogel i ysgolion
- Gwelliannau priffyrdd gan gynnwys coridorau bysus
- Partneriaeth Operation Red Mana gyda De Cymru (Cael Gwared ar Feiciau Oddi ar y Ffordd o dir cyhoeddus. 9 Ymgyrch, 24 beic wedi'u hatafaelu hyd yn hyn)
- Gwelliannau Gorfodi Amgylcheddol
- Partneriaethau Beicio

## YSTADEGAU ARIANNOL

Mae'r canlynol yn cynrychioli trosolwg o'r ystadegau ariannol mewn perthynas â gorfodi parcio a symud a thraffig yng Nghaerdydd.

Incwm a gwariant gorfodi:

| Cyfrif Gorfodi Sifil | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Ariannol** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Balans Cyfrif Parcio ar 1 Ebrill** | (681) | (121) | (69) | (371) | (351) |
| | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Parcio Ceir Ar y Stryd | (4,029) | (3,917) | (4,128) | (4,362) | (4,575) |
| Parcio Ceir Oddi ar y Stryd | (230) | (667) | (1,000) | (1,042) | (1,087) |
| Trwyddedau Parcio i Breswylwyr | (142) | (254) | (309) | (330) | (346) |
| Hysbysiadau Tâl Cosb Parcio | (2,150) | (2,077) | (2,085) | (2,019) | (1,973) |
| Troseddau Traffig sy'n Symud | 0 | (848) | (2,840) | (3,360) | (3,992) |
| Arall | (48) | (54) | | | (55) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(6,599)** | **(7,817)** | **(10,362)** | **(11,113)** | **(12,028)** |
| | | | | | |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau Gweithredol a Chyfrif Parcio | 713 | 1,087 | 1,246 | 1,037 | 698 |
| Gwasanaeth Gorfodi gan gynnwys GRhT | 3,009 | 2,856 | 4,159 | 4,607 | 5,276 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **3,722** | **3,943** | **5,405** | **5,644** | **5,974** |
| | | | | | |
| **(Gweddill) / Diffyg Blynyddol GPS** | **(2,877)** | **(3,874)** | **(4,957)** | **(5,469)** | **(6,054)** |
| | | | | | |
| **Cyfraniad tuag at gynlluniau yn ôl Adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd*** | **3,437** | **3,926** | **4,655** | **5,489** | **5,704** |
| **Cyfraniad at (Weddill) / Diffyg y Cyfrif Parcio y Flwyddyn** | **560** | **52** | **(302)** | **20** | **(350)** |
| | | | | | |
| **Cyfraniad yn ôl cyllid Adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd;**<br>- darparu neu weithredu gwasanaethau trafnidiaeth teithwyr cyhoeddus;<br>- projectau gwella priffyrdd neu ffyrdd yn ardal yr awdurdod lleol;<br>- gwelliant amgylcheddol yn ardal yr awdurdod lleol. | | | | | |

| Ystadegau Gorfodi Parcio (YGP) | | % |
|---|---|---|
| Cyflwynwyd | 59,668 | |
| Apeliadau a dderbyniwyd | 12,604 | 21% |
| Llwyddiannus | 6,985 | 12% |
| Aflwyddiannus | 4,857 | 8% |
| Wedi'u canslo | 8,438 | 14% |
| Wedi'u talu gyda gostyngiad | 33,131 | 56% |
| Wedi'u talu'n llawn | 6,484 | 11% |
| Wedi'u talu gyda thâl ychwanegol | 1,533 | 3% |
| Cyfanswm a dalwyd hyd yn hyn | 41,148 | 69% |
| Cyfanswm sy'n Weddill ar ddiwedd y flwyddyn | 10,082 | 17% |

| Ystadegau Troseddau Traffig sy'n Symud | | % |
|---|---|---|
| Cyflwynwyd | 144,578 | |
| Apeliadau a dderbyniwyd | 18,535 | 13% |
| Llwyddiannus | 9,269 | 6% |
| Aflwyddiannus | 4,834 | 3% |
| Wedi'u canslo | 26,782 | 19% |
| Wedi'u talu gyda gostyngiad | 87,152 | 60% |
| Wedi'u talu'n llawn | 2,259 | 2% |
| Wedi'u talu gyda thâl ychwanegol | 4,692 | 3% |
| Cyfanswm a dalwyd hyd yn hyn | 94,103 | 65% |
| Cyfanswm sy'n Weddill ar ddiwedd y flwyddyn | 23,693 | 16% |

| Dadansoddiad o Leoliadau Troseddau Traffig sy'n Symud | |
|---|---|
| Crwys Road | 1,413 |
| Heol y Tollty, Canol y Ddinas – (2 Gamera) | 15,982 |
| Heol y Dug, Canol y Ddinas | 2,700 |
| Ffordd y Brenin, Canol y Ddinas | 17,163 |
| Heol Casnewydd, Adamsdown – (3 Camera) | 11,779 |
| Plas-y-Parc, Canol y Ddinas | 6,712 |
| Heol Casnewydd, Pen-y-lan | 12,365 |
| Ffordd Churchill, Canol y Ddinas | 506 |
| Llantrisant Road, Llandaf | 1,788 |
| Heol y Gogledd, Canol y Ddinas | 5,835 |
| Southern Way, Tredelerch | 2,521 |
| Caerphilly Road, Llwynbedw | 1,927 |
| Cyfanswm Blynyddol | 80,691 |

| Dadansoddiad o Leoliadau Troadau sydd wedi'u Gwahardd | |
|---|---|
| Cyffordd Birchgrove Road gyda Manor Way | 971 |
| Ffordd Churchill / Stryd Ogleddol Edward | 1,098 |
| Cyffordd Crystal Glenn gyda Heathwood Rd, Y Mynydd Bychan | 2,717 |
| Heol Pont yr Aes, Canol y Ddinas | 6,599 |
| Cyffordd Heol y Gogledd gyda Heol y Coleg | 4,859 |
| Heol y Porth, Canol y Ddinas | 9,751 |
| Amroth Road, Heol Orllewinol y Bont-faen | 494 |
| Heol Colum, Heol Corbett | 91 |
| Ffordd Ty Unnos, Caerphilly Road | 305 |
| Heol Casnewydd, Wordswoth Avenue | 7,476 |
| Heol Casnewydd, New Road | 2,253 |
| Piercefield Place/Heol Casnewydd | 1,447 |
| Heol Eglwys Fair / Lôn y Felin | 4,801 |
| Malverne Drive – Dim Mynediad | 3,972 |
| Paget Street – Dim Mynediad | 502 |
| Cyfanswm Blynyddol | 47,336 |

| Dadansoddiad o Leoliadau Cyffyrdd Blychau Melyn | |
|---|---|
| Adam Street/Cyswllt Canolog | 398 |
| Stryd Bute / Heol y Tollty / Yr Aes | 2,092 |
| Caerphilly Road/Rhydhelig Avenue | 2,450 |
| Heol David / Heol y Bont / Heol Charles | 222 |
| Plas Dumfries / Heol Casnewydd | 1,801 |
| Leckwith Road / Canolfan Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd | 1,202 |
| Cyfanswm Blynyddol | 8,165 |

| Cyfanswm Ceir Camera | |
|---|---|
| Caerdydd – Amrywiol | 8,386 |
| Cyfanswm Blynyddol | 8,386 |

| Ystadegau Trwyddedau a Bathodynnau Anabl | |
|---|---|
| Nifer y Trwyddedau Preswylwyr a gyflwynwyd | 19,321 |
| Nifer y Bathodynnau Anabl a gyflwynwyd | 6,644 |

## RHYDDID GWYBODAETH A DATA AGORED

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi ymrwymo i gyhoeddi mwy o'i ddata. Mae hyn yn hyrwyddo bod yn agored a thryloywder ac yn galluogi eraill i ailddefnyddio'r data hwn mewn ffyrdd newydd a chreadigol.

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi mabwysiadu dull Llywodraeth y DU sef y dylid cyhoeddi data i leiafswm o 3 seren. Mae hyn yn golygu bod ein data yn hygyrch ac ar gael i'w ail-ddefnyddio yn ôl y gofyn (yn unol â'r telerau a nodir yn y Drwydded Llywodraeth Agored). Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein holl setiau data cyhoeddedig yn diwallu'r safon hwn.

Mae'r ddolen ganlynol yn cynnig gwybodaeth ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol a dolenni i ddata am barcio, gorfodi traffig sy'n symud a gwybodaeth ariannol.

Rhagor o wybodaeth: https://foi.cardiff.gov.uk/cym/Pages/OpenData_All.aspx